OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 Rhif 2840 (Cy.204)

# IECHYD ANIFEILIAID, CYMRU

## Gorchymyn Ffliw Adar a Chlefyd Newcastle (Cynllunio Wrth Gefn) (Cymru) 2005

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'i wneud* | - - | *11 Hydref 2005* |
| *Yn dod i rym* | - - | *20 Hydref 2005* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan Adran 14A(1)(b) a (8)(c) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**1**) yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn—

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ffliw Adar a Chlefyd Newcastle (Cynllunio Wrth Gefn) (Cymru) 2005 a daw i rym ar 20 Hydref 2005.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

### Cymhwysedd Adran 14A o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981

**2.** Mae Adran 14A o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 (Cynllun cenedlaethol wrth gefn) yn gymwys o ran ffliw adar a chlefyd Newcastle.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**2**).

*D. Elis-Thomas*
11 Hydref 2005 — Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**1**) 1981 p.22 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 2002 (p.42). Mewnosododd adran 18 o Ddeddf 2002 adran 14A yn Neddf 1981, gan roi pwerau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o ran Cymru. Estynnodd y Gorchymyn Ffliw Adar a Chlefyd Newcastle (Cymru a Lloegr) 2003 (O.S. 2003/1734) bwerau penodol yn Neddf 1981 y gellir eu harfer o ran clwy'r Traed a'r Genau i ffliw adar a chlefyd Newcastle.

(**2**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu bod gofynion adran 14A o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 (fel y'u mewnosodwyd gan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 2002 p.42) yn gymwys i Ffliw Adar a Chlefyd Newcastle. Mae Adran 14A yn darparu ar gyfer paratoi cynlluniau cenedlaethol wrth gefn sy'n dynodi'r trefniadau y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn bwriadu eu gosod yn eu lle er mwyn delio â'r clefyd os digwydd.

Paratowyd arfarniad rheoliadol ar gyfer y Gorchymyn hwn ar gostau busnes a cheir copiau gan Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.